

Datganiad Newyddion 09/04/2020

THEATR VOLCANO YN LANSIO 'ENCOUNTERS UNKNOWN'

Mae cwmni VOLCANO THEATRE, sydd wedi'i leoli yn Abertawe, wedi lansio rhaglen o waith newydd a pharhaus, ar gyfer y cyfnod hwn o gau yn sgil y coronafeirws. ENCOUNTERS UNKNOWN yw'r enw a roddwyd ar y rhaglen gan y cwmni.

Yn ôl Cyfarwyddwr Artistig Volcano, PAUL DAVIES, "Mae'r holl waith yma wedi ei gyflwyno er mwyn parhau â'r ysbryd o greadigrwydd, creu ymdeimlad o gymuned ac ar gyfer y syniad, pan fyddwn yn llwyddo i ddychwelyd i'r ystafell ymarfer, efallai y gwnawn hynny gyda gwell dealltwriaeth o'n bywydau a'r lleoedd yr ydym yn byw ynddynt a'r bobl y dewiswn eu caru."

Prif brosiect y rhaglen yw [NOTES FROM THE INTERIOR](#), sef cyfres o dasgau perfformiadol a osodwyd gan Paul Davies, ac mae croeso i unrhyw un ymateb iddo. Bob wythnos, bydd y cwmni'n rhyddhau tasg gyhoeddus newydd yn seiliedig ar destun, delwedd neu ryw ysgogiad arall.

"Meddyliais", medd Davies, "wrth i'r argyfwng ddatblygu, ei bod hi'n hanfodol i ni roi cynnig ar unwaith i amryw o berfformwyr yr oeddem yn bwriadu gweithio gyda nhw, i barhau i weithio, felly rhoddais wahoddiad iddynt gyflwyno ymateb digidol i amryw o dasgau a osodais, a dechreuais weld y posibilïadau o estyn allan..."

Mae'r actorion sy'n gweithio ar y prosiect yn cael rhybudd ynglŷn â'r dasg ac mae pob un ohonynt yn ffilmio ymateb creadigol iddi. Yna, mae'r cwmni'n cyhoeddi eu fideos fel enghreifftiau i ysbrydoli neu i ddifyrru ac mae'n creu cyfllle i'r cyhoedd ymateb. Gall pobl roi cynnig ar y dasg yn breifat, i herio neu i ddiddanu eu hunain yn unig, neu gallant anfon eu hymatebion i'r cwmni a fydd yn rhannu'r gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae NOTES FROM THE INTERIOR yn ateb gan y cwmni i raddau i'r cyfnod hwn o ynysu, a fyddai fel arall wedi bod yn gyfnod o weithio yn y stiwdio gyda'r actorion i ddatblygu darn newydd o waith. Mae'r broses hon, sydd ymhell o lygaid y cyhoedd fel arfer, nawr ar gael i'w gweld. Wrth ynysu, mae'r cyfle gennym ar unwaith sydd, ar yr un pryd, yn llawer mwy preifat (wrth greu gwaith yn unigol yng nghartrefi neu leoliadau'r cyfranogwyr), ac yn llawer mwy cyhoeddus (gan fod pob ymateb yn cael ei rannu wrth i'r gwaith fynd rhagddo, a gwahoddir pawb i gymryd rhan).

"Er mai cynulliad cyhoeddus unigol yw theatr", meddai Davies, "fy nod oedd i'r elfen newydd hon o waith ddathlu posibilïadau preifat unrhyw berfformiad. Wedi'r cwbl, gwyddom i gyd fod perfformiad yn digwydd yn y sffêr breifat bob diwrnod."

Mae'r actorion sydd ynghlwm oll wedi eu lleoli yng Nghymru neu wedi eu hyfforddi yma, a phob un â sgiliau cryf mewn gwaith byrfyfyr a dyfeisio. O bwysigrwydd mawr yw bod pob un yn cynnig hiwmor i'r gwaith hefyd ynghyd â naws chwareus i'r tasgau yn ogystal ag arbenigedd ac elfennau unigryw personol. Er bod pawb, wrth reswm, yn bryderus ynghylch difrifoldeb y sefyllfa, does dim byd i'w ennill drwy ddramateiddio ein sefyllfa yn ddi-ben-draw, ac yn y cyfamser gwelir digwyddiadau abswrdd ym mhob twll a chornel o'n cymdeithas.

Yr actorion sy'n gweithio ar hyn o bryd ar NOTES FROM THE INTERIOR yw Christopher Elson, Neal McWilliams, Mairi Phillips a Rebecca Smith-Williams.

YN OGYSTAL YN ENCOUNTERS UNKNOWN...

"Fel rhan arall o'n rhaglen waith yn ystod y cyfnod o ynysu, mae gennym gynigion neu heriau digidol hefyd ar gyfer ein CWMNI IEUENCTID VOLCANO (14-21) ac ar gyfer ein cyfranogwyr ifancach rhwng 9-14 oed, sy'n gweithio dan y teitl THE MIGHTY NEW," eglura Davies.

Roedd THE MIGHTY NEW ddim ond newydd ddechrau ar eu tymor pan fu'n rhaid cau popeth i lawr, felly roedd gan y cwmni grŵp newydd yn ysu i gychwyn arni yn llawn syniadau. Arweinydd y grŵp yw'r Cyfarwyddwr Symudiadau, Catherine Bennett.

"Bellach, mae The Mighty New yn cyfarfod ar-lein bod dydd Sadwrn," meddai Bennett. Gan gynnwys plant 9 i 12 oed yn bennaf, maent yn llawn egni ac yn wych wrth fyrfyfyrio. Gan gysylltu o'u cartrefi mae'r plant wedi ymdrin â'r tasgau coreograffig yn wych. Mae'r mathau o dasgau a gynigir, wedi eu dylanwadu gan sut y llwyddwn i ddelio â'r pandemig hwn, wedi ymdrin â choreograffeg lle yn hytrach na'r math o goreograffi yr ydym wedi arfer ei threfnu ar gyfer y llwyfan.

Mae deuwadwau lu i'w cael. Ar y stryd gall deimlo fel gêm o bwy fydd yn mentro gyntaf. Pwy fydd y cyntaf i greu lle? Beth yw'r ystum neu'r hop diweddaraf? Gall deimlo braidd yn unig heb ein partner dawnsio gyda ni gartref, ond gallwn greu deuwadwau gyda gwrthrychau. Deuawd gyda chadair, dychmygu blwch gwydr o'n hamgylch, cymeriad dychmygol. Efallai bod ein dychymyg yn bwysicach fyth er mwyn cynnal sgwrs, ein diddanu. Mae'r plant yn chwarae hop yr iâr nid yn unig ar y palmentydd, ond gyda gwrthrychau, eu hunain, eu dychymyg a gyda ni, eu cynulleidfa rithwir.

Mae'r cwmni wedi creu gwefan arbennig ble bydd y grŵp yn gosod tasgau, rhannu syniadau, rhoi cynnig ar eu symudiadau a rhoi sylwadau ac adborth i'w giilydd. Nid yw hyn ar gael i'w weld gan y

cyhoedd ar hyn o bryd, gan mai'r nod yw efelychu'r lle sydd ar gael yn yr ystafell ymarfer, ble gall syniadau gael eu profi a'u harchwilio heb bryder na barn. Fodd bynnag, bydd y cwmni'n rhannu peth o'r gwaith a grewyd gan y bobl ifanc, yn ddiweddarach yn y sesiwn.

Mae'r grŵp ieuencid hŷn, VOLCANO YOUTH COMPANY, dan arweiniad Paul Davies, wedi cael her dra wahanol.

"Rwyf wedi eu gwahodd i fod fel 'Cindy Sherman'," meddai, gan gyfeirio at yr artist Americanaidd sy'n enwog am greu delweddau o'i hunan yn edrych fel pobl eraill. Mae'n ymarfer o guddwisgo a thwyll. Mae hi'n ddyddiau cynnar ar y prosiect hwn, felly cawn weld beth ddaw ohono..."

Mae tasgau cyntaf prosiect NOTES FROM THE INTERIOR eisoes yn fyw. Gallwch ymuno yn yr hwyl a dysgu rhagor am raglen ENCOUNTERS UNKNOWN Volcano ar wefan y cwmni:

www.volcanotheatre.co.uk/whats-on/encounters-unknown